

## Ateb - Pa wlad?

Mae'r ddau lun wedi eu tynnu yn ninas Dubai, yn yr United Arab Emirates. Mae'n wlad gyfoethog iawn, fel mae'r llun o'r ceir crand yn dangos.

Mae'r wlad yn y Dwyrain Canol, lle mae crefydd Islam yn gryf iawn. Fodd bynnag, mae Cristnogion yn cael dathlu'r Nadolig yma, fel mae'r llun yn dangos.

Mae'n wlad oddefgar iawn ac felly mae rhyddid i bobl addoli Duw. Mae goddefgarwch yn bwysig yn yr United Arab Emirates. Mae hyn mor bwysig fel bod Gweinidog Goddefgarwch arbennig wedi cael ei benodi i'r llywodraeth - yn ogystal â Gweinidog Hapusrwydd, sy'n ceisio gwneud yn siŵr bod y bobl sy'n byw yn y wlad yn byw bywyd hapus. Dyna braf!